**COFNODION CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR TREF ABERAERON A GYNHALIWYD AR 29ain MEHEFIN 2026 AM 5:00pm YN NEUADD GOFFA, ABERAERON**

**YN BRESENNOL:** y Cynghorydd Rhodri Jones (Cadeirydd); y Cynghorwyr Tim Archer, Aled Davies, Phill Davies, Darryl Evans, Elizabeth Evans a Lloyd Garvey.
Denfer Morgan – Clerc y Dref

**778. YMDDIHEURIADAU**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Rhys Davies ac Agnieszka Kalinowska am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**779. CYFRIFON BLYNYDDOL 2025-26**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

a) Cyfrifon Blynyddol 2025-26 fel a archwiliwyd gan yr Archwilydd Mewnol
b) Adroddiad yr Archwilydd Mewnol
c) Y Datganiadau Cyfrifyddu.

Cafwyd ystyriaeth fanwl o'r Cyfrifon ac Adroddiad yr Archwilydd Mewnol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

i) cymeradwyo Cyfrifon Blynyddol 2025-26 fel a archwiliwyd gan yr Archwilydd Mewnol ac i'w hanfon mlaen at Archwilio Cymru, ynghŷd â'r Datganiadau Cyfrifyddu;

ii) nodi Adroddiad yr Archwilydd Mewnol ac i gytuno cyfarwyddo'r Clerc i gymryd y camau canlynol fel ag argymhellwyd ynddo fe:

- cysylltu gyda Vision ICT er mwyn cael eglurhad o'r cyfnodau a gynhwysir yn eu hanfonebau yn ystod y flwyddyn ac i wneud cais am ad-daliad am bob taliad dwbl a wnaed iddynt hwy
- sicrhau fod yr elfen TAW yn cael ei gofnodi'n iawn wrth dalu anfonebau
- sicrhau fod ceisiadau am ad-daliad yn cael eu cefnogi gan yr anfonebau angenrheidiol; ac i gytuno creu taflen hawlio er mwyn hwyluso'r gofyniad hwn
- derbyn cyngor a gwneud adolygiad o asedau sefydlog ac i gyflwyno rhestr cyflawn, gyda gwerthoedd wedi'u diweddaru, ar gyfer ei gymeradwyo gan y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 5:40pm